# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2016-2017

Mae adroddiad blynyddol y cynghorydd hwn yn amlinellu ei weithgareddau dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar **24 Mai 2017.** Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid oes ganddo ddiben arall. Barn y cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o anghenraid yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe

| **Cynghorydd:** | Elliott King | Adran Etholiadol: | Y Cocyd |
|---|---|---|---|

## Adran 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth

Yn ystod y flwyddyn cynheliais gymorthfeydd ar draws y ward gyda fy nghydweithwyr ward ddwywaith y mis. Roedd nifer o bobl wedi mynychu'r cymorthfeydd a rhoddwyd cyfle i breswylwyr drafod nifer o faterion wyneb yn wyneb. Hefyd, cynhaliwyd cymorthfeydd stryd pan nodwyd materion penodol megis ceisiadau cynllunio.

Bues yn bresennol yng nghyfarfodydd PACT, a gynhaliwyd yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn, yn y Cocyd a Waunarlwydd.

Bues yn ymdrin yn barhaus ag ymholiadau gan breswylwyr ac yn cynorthwyo gydag amryw broblemau

Mae'r gyllideb gymunedol wedi cael ei defnyddio i ddarparu nifer o brosiectau megis cefnogi Parc Ravenhill a darparu Meinciau ‘Buddy’ i ysgolion yn y ward.

## Adran 2: Presenoldeb y cynghorydd yng nghyfarfodydd penodol cyrff y cyngor

Un elfen bwysig yn unig o ddyletswyddau cynghorydd yw mynychu cyfarfodydd cyrff y cyngor. Mae cynghorwyr hefyd yn gweithredu drwy gynnal cymorthfeydd, mynd i gyfarfodydd ac ymateb i ymholiadau cyffredinol o'r adran etholiadol.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Y Cyngor | 10 | / | 16 | 62.50 | % |
| Pwyllgor Cynghori'r Cabinet ar Atal a Diwygio Gofal Cymdeithasol | 7 | / | 12 | 58.33 | % |
| Pwyllgor y Rhaglen Graffu | 8 | / | 13 | 61.54 | % |
| Archifau Gorllewin Morgannwg | 2 | / | 4 | 50.00 | % |
| **Cyffredinol** | **27** | **/** | **45** | 60.00 | **%** |
| | | | | | |
| **Cyfarfodydd Craffu:** | | | | | |
| Ymchwiliad Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glas oed (CAMHS) | 0 | / | 1 | 0.00 | % |
| **Cyffredinol** | **0** | **/** | **1** | 0.00 | **%** |

## Adran 3: Rôl a chyfrifoldebau'r cynghorydd

Rwyf wedi bod yn llywodraethwr yn Ysgol Gymunedol y Gors.

Yn fy rôl fel aelod hyrwyddo dros faterion LGBT, roeddwn yn gadeirydd fforwm LGBT Bae Abertawe.

Fel aelod o Gyngor Iechyd Cymunedol PABM ymwelais â wardiau ac ardaloedd ysbyty nifer o weithiau yn ystod y flwyddyn i siarad â chleifion ac edrych ar y cyfleusterau ac agweddau ar yr amgylchedd.

**Adran 4: Mentrau a gweithgareddau arbennig**

Cymerais ran mewn digwyddiadau codi sbwriel ar draws y ward er mwyn clirio sbwriel o sawl man a chynhelais ymgyrch i fynd i'r afael â thipio anghyfreithlon ar draws y ward.

**Adran 5: Dysgu a datblygu**

Es i ar gwrs Arweinyddiaeth CLILC

Hyfforddiant:
13/09/2016 - Llywodraethwr Newydd (llywodraethwr ysgol)
14/09/2016 - Diogelu Oedolion
14/09/2016 - Diogelu ac amddiffyn plant
01/11/2016 - Diogelu Data (llywodraethwr ysgol)
19/05/2017 - Gwneud Penderfyniadau Da, Tuedd, Penderfynu Ymlaen Llaw a Rheolau Cyfiawnder Naturiol
11/05/2017 - Côd Ymddygiad

**Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill**

Rwyf wedi bod yn aelod gweithgar o Bwyllgor Canolfan Gymunedol y Gendros gan gyfrannu at weithredu'r ganolfan a'i gwaith. Roeddwn yn bresennol mewn cynifer o ddigwyddiadau yn y ward â phosib i gefnogi Tŷ Dewi Sant, Ffrindiau Parc Ravenhill, Carnifal Waunarlwydd, Tŷ Fforest, Sefydliad Roots, a'r llyfrgelloedd a'r canolfannau cymunedol.

**Adran 7: Taliadau cydnabyddiaeth i gynghorwyr**

Cyflog Sylfaenol: £13,300 (2016-2017)

Gellir gweld ffurflenni hawlio costau teithio a chynhaliaeth cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13266&path=0&LLL=0

Gellir gweld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13284&path=0&LLL=0

| | |
|---|---|
| **Dyddiad**: | 07.11.17 |